


# CYFAILL Y LLYFRGELL FRIEND OF THE LIBRARY



Llythyren gyntaf yn / An initial in Peniarth 540

llun / picture Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales

CYLCHLYTHYR CYFEILLION LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
NEWSLETTER OF THE FRIENDS OF THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Haf 2003 Summer

**GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU:**  
**A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE**

Mary Burdett-Jones

Goln. Gareth A. Bevan a Patrick J. Donovan, Gwasg Prifysgol Cymru, rhannau 64 tt., £9.99 (£6.66 i danysgrifwyr), ISSN 0072-0542

Eds. Gareth A. Bevan and Patrick J. Donovan, University of Wales Press, 64 pp. fascicles, £9.99 (£6.66 to subscribers), ISSN 0072-0542

Mae'r geiriadur hanesyddol hwn o'r iaith Gymraeg (GPC) yn brosiect sydd wedi gwneud defnydd helaeth o adnoddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn briodol oherwydd bod y *Geiriadur*, fel y Llyfrgell Genedlaethol, Prifysgol Cymru ei hun, ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn ffrwyth cenedlaetholdeb diwylliannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn fuan ar ôl i Brifysgol Cymru sefydlu'r Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd i hyrwyddo ymchwil yn 1919, penderfynwyd dechrau darllen ar gyfer GPC. Gwnaeth y Llyfrgell Genedlaethol gyfraniad aruthrol drwy roi lloches i'r staff mewn amrywiol stafelloedd o 1919 tan 1993, pan symudodd y tîm i Adeilad y Brifysgol, sy'n gysylltiedig â'r Llyfrgell â choridor. Felly mae staff yn dal i gael mynediad i'r staciau, sy'n hwyluso eu gwaith yn ddirfawr oherwydd bod yr holl enghreifftiau a ddyfynnir yn cael eu sicio yn erbyn y ffynonellau gwreiddiol neu atgynhyrchiadau ohonynt megis meicroffilmiau. Yn gyfnewid mae'r staff yn cynorthwyo'r Llyfrgell gydag ambell ymholiad.

Y nod ar y dechrau oedd olrhain hynt y Gymraeg o weddillion Hen Gymraeg mewn glosau o'r nawfed ganrif ymlaen, drwy ddarllen cymaint o lyfrau printiedig ag oedd yn bosibl a'r llawysgrifau pwysicaf hyd at 1800. Yr adeg hynny roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ymddangos fel ddoe! Ni ellid ond cymryd samplau o gynnyrch y ganrif a elwid yn 'oes aur' cyhoeddi yn Gymraeg gan yr Athro G. J. Williams. Darllenwyd erbyn hyn nifer o weithiau o'r ugeinfed ganrif er mwyn ceisio cadw i fyny â datblygiadau yn yr iaith. Mae'r casgliad slipiau, sy'n cynnwys y dangosair tybiedig, y gair dan sylw mewn rhywfaint o gyd-destun, y dyddiad, a chyfeiriad at y ffynhonnell, bellach yn cynnwys mwy na dwy filiwn o slipiau.

Yn wahanol i'r *Oxford English Dictionary* (OED), y modelwyd GPC arno, bu'n rhaid tynnu ar lawysgrifau a thraethodau anghyhoeddedig ar raddfa fawr oherwydd nad



Darllenwyr haf 1928 yn Ystafell Summers  
 Summer readers 1928 in the Summers Room

ail o'r chwith / second from left W. Beynon  
 Davies, ail o'r dde / second from right E. D.  
 Jones

llun / picture Llyfrgell Genedlaethol Cymru /  
 National Library of Wales

This historical dictionary of the Welsh language (GPC) is a project which has made extensive use of the resources of the National Library of Wales. This is appropriate since the *Dictionary*, like the National Library, the University of Wales itself, and the National Museums and Galleries of Wales are the product of nineteenth-century cultural nationalism.

Shortly after the University of Wales founded the Board of Celtic Studies to promote research in 1919, it was decided to start reading for GPC. The National Library made a tremendous contribution by giving the staff shelter in a variety of rooms from 1919 to 1993, when the team moved to the University Building, which is connected to the Library by a corridor. Staff can thus still gain access to the stacks, which makes their work much easier as all the quotations given are checked against the original sources or reproductions of them such as microfilms. In return the staff assist the Library with the occasional query.

The aim at the beginning was to trace the course of Welsh from the remnants of Old Welsh in glosses of the ninth century onwards, by reading as many printed books as

possible and the most important manuscripts up to 1800. At that period the nineteenth century seemed like yesterday! It was not possible to do more than sample the products of the century named the 'oes aur' (golden age) of Welsh publishing by Professor G. J. Williams. Since then a number of works of the twentieth century have been read in order to keep up with developments in the language. The collection of slips, which contain the supposed headword, the word in question in a certain amount of context, the date, and a reference to the source, now contains over two million slips.

Unlike the *Oxford English Dictionary* (OED), on which GPC was modelled, it was necessary to draw upon manuscripts and unpublished theses on a large scale since many of the texts quoted had not been edited in scholarly editions. Where the OED could use the work of the Early English Text Society, for example, it is only recently that we



oedd llawer o'r testunau y dyfynnir ohonynt wedi eu golygu mewn argraffiadau ysgolheigaidd. Lle'r oedd yr OED yn medru defnyddio cynnyrch yr Early English Text Society, er enghraifft, dim ond yn ddiweddar y cafwyd golygiad safonol o waith y Gogynfeirdd, ac mae'r Ganolfan Uwchegyrdiau Cymreig a Cheltaidd yn dal wrthi yn golygu barddoniaeth yr Uchelwyr, a barhâ'r traddodiad o noddi'r beirdd ar ôl i'r Saeson oresgyn Cymru yn 1282.

Tan yn ddiweddar nid oedd cyweithiau yn cael cymaint o statws ag yr oeddent yn ei haeddu – fe ddiodeffodd y *New English Dictionary* (a ddaeth yn OED) yn yr un ffordd, fel y gwelir yn llyfr K. M. E. Murray, *Caught in the web of words: James Murray and the Oxford English Dictionary* (1979) – ond serch hynny llwyddwyd i gael gwasanaeth nifer o ysgolheigion da dros y blynyddoedd ar y *Geiriadur*. Un a aeth ymlaen i fod yn Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol oedd yr Athro R. Geraint Gruffydd, sydd wedi cymryd lle'r diweddar Athro J. E. Caerwyn Williams, yr ysgolhaig Celtaidd mawr, fel Golygydd Ymgynghorol y *Geiriadur*. Daeth E. D. Jones, a ddarllenodd i GPC fel myfyriwr, hefyd yn Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol, wedi bod cyn hynny yn Geidwad hen Adran Llawysgrifau'r Llyfrgell. Roedd angen cyflogi darllenwyr fel hyn oherwydd, fel y dywedodd T. Gwynn Jones mewn adroddiad yn 1926 wrth sôn am y posibilrwydd o ddefnyddio gwirfoddolwyr, 'In a country like ours, where the language & the native culture has been for generations studiously shut out from schools & colleges, a scholarly dictionary cannot be produced with such assistance'. Mae myfyrwyr yn dal i gael eu cyflogi yn ystod yr haf, a dros y blynyddoedd mae rhai darllenwyr gwirfoddol megis y diweddar Stephen Stephens wedi gwneud cryn gyfraniad.

Pennaeth cyntaf y tîm oedd y Parch. J. Bodvan Anwyl, a oedd wedi golygu argraffiadau o eiriadur Spurrell. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd roedd prinder geiriaduron, a phenderfynwyd bod digon o ddeunydd i ddechrau golygu a chyhoeddi. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym 1950 dan olygyddiaeth R. J. Thomas, awdur *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*. Trafodir tarddiad geiriau, gan gymharu wrth gwrs â ffurfiau mewn ieithoedd Celtaidd a nifer o ieithoedd eraill, yn ogystal ag enghreifftio eu defnydd dros y canrifoedd mewn dyfyniadau.

Trafodwyd hanes cymdeithasol yr iaith Gymraeg mewn cyfres o lyfrau a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Uwchegyrdiau Cymreig a Cheltaidd. Nawr mae GPC wedi cyrraedd 'Z' (am y tro cyntaf!), mae modd llanw un o'r bylchau yn y gyfres wych honno drwy astudio geirfa'r iaith fel tystiolaeth i'w defnydd mewn gwahanol beuoedd dros y blynyddoedd.

Mae'r Athro Robert Evans wedi tynnu sylw at y cyfatebiaethau rhwng sefyllfa'r iaith Gymraeg dan yr ymerodraeth Brydeinig ac eiddo ieithoedd dwyrain Ewrop dan yr ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd. Noda'r Athro gyfieithu'r Beibl a chynhyrchu geiriaduron a gwyddoniaduron fel cerrig milltir yn hanes iaith.

Fe sicrhodd cyfieithu'r Beibl fod y Gymraeg wedi dod yn iaith Protestaniaeth, crefydd llyfr, gan hyrwyddo datblygiad iaith lenyddol safonol sydd wedi bod yn gyfrifol i raddau

have a standard edition of the work of the *Gogynfeirdd* (Poets of the Princes), and the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies is still at work editing the poetry of the *Uchelwyr* (Gentry), who continued the tradition of the patronage of the poets after Wales was conquered by the English in 1282.

Until recently co-operative works did not have the status which they deserved – the *New English Dictionary* (which became the OED) suffered in the same way, as can be seen in K. M. E. Murray's book, *Caught in the web of words: James Murray and the Oxford English Dictionary* (1979) – but despite that the services of a number of good scholars were secured for the *Dictionary* over the years. One who went on to become Librarian of the National Library of Wales was Professor R. Geraint Gruffydd, who has taken the place of the late Professor J. E. Caerwyn Williams, the great Celtic scholar, as Consultative Editor of the *Dictionary*. E. D. Jones, who read for GPC as a student, also became Librarian of the National Library, having been before that Keeper of the old Department of Manuscripts of the Library. It was necessary to employ readers such as this since, as T. Gwynn Jones said in a report in 1926 discussing the possibility of using volunteers, 'In a country like ours, where the language & the native culture has been for generations studiously shut out from schools & colleges, a scholarly dictionary cannot be produced without such assistance'. Students are still employed during the summer, and over the years some voluntary readers such as the late Stephen Stephens have made a considerable contribution.

The first head of the team was the Rev. J. Bodvan Anwyl, who had edited a number of editions of Spurrell's dictionary. After the Second World War there was a shortage of dictionaries, and it was decided that there was sufficient material to start editing and publishing. The first number appeared in 1950 under the editorship of R. J. Thomas, the author of *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (The names of the rivers and streams of Wales). The etymology of words is discussed, with comparisons of course with forms in other Celtic languages and a number of other languages, as well as exemplifying their use over the centuries by quotations.

The social history of the Welsh language has been discussed in a series of books published by the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies. Now that GPC has reached 'Z' (for the first time!), it is possible to fill one of the gaps in that splendid series by studying the vocabulary of the language as evidence for its use in various domains over the years.

Professor Robert Evans has drawn attention to the correspondences between the situation of the Welsh language under the British Empire and that of the languages of eastern Europe under the Austro-Hungarian Empire. Professor Evans notes the translation of the Bible and the production of dictionaries and encyclopedias as milestones in the history of a language.

Translating the Bible ensured that Welsh became the language of Protestantism, a religion of the book, and promoted the development of a standard literary language which is responsible to a great extent for preventing Welsh from suffering the weakness of being a mere collection of dialects. This, together with the distance of parts of Wales

helaeth am gadw'r iaith Gymraeg rhag dioddef gwendid bod yn ddim ond casgliad o dafodieithoedd. Hyn, ynghyd â phellter rhannau o Gymru o ddylanwad yr iaith Saesneg a mudo o fewn Cymru ei hun i'r ardaloedd diwydiannol, sydd wedi helpu sicrhau parhad yr iaith hyd heddiw.

Mae'r cydblethu rhwng llyfr a llafar yn parhau, gydag un yn atgyfnerthu'r llall, ac mae GPC ei hun yn chwarae rhan yn y broses gan ei fod yn galluogi pobl, yn arbennig llenorion, i feddiannu holl adnoddau geirfaol yr iaith, drwy ddangos y gwahanol arlliwiau o ystyr, a'r cynodiadau hanesyddol. Mae hyn yn arbennig o werthfawr i ddysgwyr sydd am werthfawrogi llenyddiaeth yr iaith, ac wrth gwrs maen nhw'n yn grŵp allweddol. Oni bai bod oedolion mewn lluoedd yn ogystal â phlant yn dysgu'r iaith yn ddigon da i'w defnyddio mewn amrywiaeth o feysydd, ni fydd yr iaith yn parhau i'r ganrif nesaf. Ceir esboniadau defnyddiol iawn o'r cyfuniadau yn yr iaith, ac, er nad yw GPC yn eiriadur tafodieithol, rhoddir cryn sylw i ffurfiau llafar a thafodieithol, ac weithiau enwau lleoedd. Mae'r *Geiriadur* hefyd yn arf bwerus i gyfieithwyr a'r rhai sy'n darparu defnyddiau dehongli ar adeg pan mae Cymru yn dibynnu fwyfwy ar dwristiaeth ddiwylliannol i gyfrannu at ffyniant economaidd.

Diddorol yn y cyswllt hwn yw nodi bod y ddau Gyd-Olygydd yn Gymry sy'n dod o gartrefi lle nad oedd y Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Mae Gareth Bevan yn athrylith o ysgolhaig nad yw ei gyfraniad wedi cael ei gydnabod yn ddigonol gan y Brifysgol, ac mae Pat Donovan yn weithiwr dygn iawn. Cyhoeddwyd erthygl gan Gareth Bevan yn trafod hanes GPC yn *Nhrasodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* yn 1995. Sais o dras Cernywaidd a chanddo ddoniau cyfrifiadurol arbennig yw Andrew Hawke, sydd wedi symud y *Geiriadur* ymlaen o oes y deipysgrif a phroflenni hirion i gynhyrchu copi parod-i'r-camera. Mae'r tîm presennol hefyd yn cynnwys Dr Manon Wyn Roberts, sy'n weithiwr hynod o ddiwyd a chyflym, Dr Angharad Fychan, sy'n dod â chyfoeth o ddiwylliant i'r gwaith, wedi etifeddu diddordebau ysgolheigaidd ei thad Cledwyn Fychan, a oedd am flynyddoedd ar staff y Llyfrgell Genedlaethol, a Gwenno Sven-Myer, sydd i'w llongyfarch ar ennill doethuriaeth yn ddiweddar, merch yr ysgolhaig J. R. F. Piette, y sonnir amdano mewn man arall yn y rhifyn hwn. Mae'r *Geiriadur* hefyd yn elwa'n sylweddol ar sylwadau rhai aelodau o'r panel golygyddol, sy'n cynnwys athrawon Cymraeg sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru, a hefyd sylwadau Dr Ceinwen Thomas a Morfydd Owen.

Ceir arian am saith mlynedd (tymor-hir yn yr oes sydd ohoni) i adolygu A-B, na chawsant eu trafod ar raddfa ddigon mawr i wneud cyfiawnder â'r defnyddiau'n wreiddiol, ac mae'r rhifyn cyntaf o'r ail argraffiad wedi'i gyhoeddi. Bydd angen hefyd ychwanegu lluo o eiriau megis 'cyfrifiadur' a'i dardeiriau, 'e-bost', 'gwefan', ac ati, gan fod yr iaith yn cael ei defnyddio i drafod llawer o agweddau ar fywyd modern — yn iaith gwaith yn Adeilad y Brifysgol ac yn y Llyfrgell Genedlaethol — a geiriau newydd yn cael eu bathu o ganlyniad.

Yr iaith Gymraeg sy'n diffinio Cymru yn anad dim byd arall. Yr iaith Gymraeg yw'r iaith Geltaidd gryfaf a'r un fwyaf tebygol o oroesi. Gobeithio y bydd datganoli yn

from the influence of English and the migration within Wales to the industrial areas, has helped ensured the continuation of the language to the present day.

The interweaving of book and spoken language, one reinforcing the other, continues, and GPC itself plays a part in this process as it enables people, especially writers, to avail themselves of the whole lexical resources of the language, by showing the various shades of meaning, and the historical connotations. This is especially valuable for learners who wish to be able to appreciate the literature, and of course they are a key group. Unless adults in large numbers as well as children learn the language sufficiently well to use it in a variety of fields, the language will not continue in existence into the next century. There are very useful explanations of the combinations or collocations, and although GPC is not a dialect dictionary, a considerable amount of attention is paid to colloquial and dialect forms, and also sometimes place names. The *Dictionary* is a powerful tool for translators and for those who provide interpretive material at a time when Wales depends more and more on cultural tourism to contribute to economic prosperity.

It is interesting in this connection to note that the two Joint-Editors are Welshmen who come from homes where Welsh was not the language of the hearth. Gareth Bevan is a scholar of genius whose contribution has not been sufficiently recognised by the University of Wales, and Pat Donovan is a very assiduous worker. An article by Gareth Bevan discussing the history of GPC was published in the *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* in 1995. Andrew Hawke is an Englishman of Cornish extraction possessing special computer skills, who has moved the *Dictionary* on from typescript and galley proofs to producing camera-ready copy. The present team also includes Dr Manon Wyn Roberts, an extremely industrious and quick worker, Dr Angharad Fychan, who brings a wealth of culture to the work, having inherited the scholarly interests of her father, Cledwyn Fychan, who worked for many years at the National Library, and Gwenno Sven-Myer, who is to be congratulated on gaining a doctorate recently, and who is a daughter of the scholar J. R. F. Piette, who is discussed elsewhere in this number. The *Dictionary* also benefits tremendously from the comments of some members of the editorial panel, which comprises professors of Welsh of the constituent institutions of the University of Wales, and also comments by Dr Ceinwen Thomas and Morfydd Owen.

There is funding for seven years (long-term in this age) to revise A-B, which were not dealt with on a sufficiently large scale to do justice to the material available at the time, and the first number of the second edition has been published. It will also be necessary to add a great number of words such as *cyfrifiadur* (computer) and its derivatives, *e-bost* (e-mail), *gwefan* (website), and so on, as the language is used to discuss many aspects of modern life — it is the working language in the University Building and in the National Library — with the result that new words are minted.

It is the Welsh language rather than anything else which defines Wales. The Welsh language is the strongest Celtic language and the one most likely to survive. It is to be hoped that devolution will enable the people of Wales to preserve and indeed reclaim their heritage. The achievement

galluogi pobl Cymru i ddiogelu ac yn wir adennill eu treftadaeth. Camp y wlad fach a thlawd hon yn cynhyrchu gwaith mor uchelgeisiol â *Geiriadur Prifysgol Cymru* yw un o'r dadleuon cryfaf dros barhad Prifysgol Cymru fel cyfundrefn ffederal.

Gweler gwefan y *Geiriadur*:  
<http://www.cymru.ac.uk/geiriadur>

of this small, poor country in producing such an ambitious work as *Geiriadur Prifysgol Cymru* is one of the best arguments for the continuation of the University of Wales as a federal structure.

See the *Dictionary* website:  
<http://www.cymru.ac.uk/geiriadur>

## DIGWYDDIADAU'R CYFEILLION

2003

- 7 Awst Darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod gan yr Athro Sioned Davies: 'Lodes Lengar'  
Lleoliad: y Stiwdio, am 3 pm
- 20 Medi Taith i Lyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd
- 29 Hydref Ysgol Undydd Dylan Thomas gyda'r Athrawon Walford Davies, Wynn Thomas, a Jane Aaron, a Dr Daniel Williams  
Lleoliad: Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Rhagfyr Digwyddiad Nadolig  
Lleoliad: Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'n bosibl y bydd y rhaglen hon yn newid.  
Bydd rhagor o fanylion ar gael yn nes at yr amser.

## FRIENDS' EVENTS

2003

- 7 August Lecture at the National Eisteddfod in Meifod by Professor Sioned Davies: 'Lodes Lengar' (Literary Lass)  
Location: y Stiwdio, at 3 pm
- 20 September Trip to Hereford Cathedral Library
- 29 October Dylan Thomas Day School with Professors Walford Davies, Wynn Thomas, and Jane Aaron, and Dr Daniel Williams  
Location: Council Chamber, National Library of Wales
- December Christmas Event  
Location: Council Chamber, National Library of Wales

Please note that there may be changes to the programme.  
More details will be available nearer the time.

## COLOFN Y CADEIRYDD

## CHAIRMAN'S COLUMN

Nesta Lloyd

Y mae rhai ohonoch wedi crybwyll eich bod yn siomedig nad oedd Colofn y Cydlynnydd yn rhifyn diwethaf *Cyfaill y Llyfrgell* gan eich bod yn hoffi cael arolwg o waith y Cyfeillion, hyd yn oed os nad ydych yn gallu dod i'r holl weithgareddau. Mae'r darlun o Rhiaian gydag Euros Fychan yn egluro pam nad yw Rhiaian wrth ei gwaith yn y Llyfrgell ar hyn o bryd, a gofynnwyd i mi lenwi'r bwloch nes y daw hi'n ôl ym mis Medi.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2003 ar 8 Chwefror ac yr oedd yn un o'r cyfarfodydd mwyaf llwyddiannus ers blynyddoedd gydag Ystafell y Cyngor yn rhwydd lawn. Ymddengys fod aelodau'n hoffi clywed am wahanol agweddau ar waith y Llyfrgell, a'r prynhawn hwnnw



Rhain Vaughan Williams ac /  
and Euros Fychan  
ffoto / photo Nesta Lloyd

Some of you have mentioned how disappointed you were not to have had the Co-ordinator's Column in the last edition of *Y Cyfaill*, since you like to know what's going on, even if you can't come to all the meetings. The photograph of Rhiaian and Euros Fychan explains why she is not presently at work in the Library, and I have been asked to fill the gap until she returns in September.

The first meeting of 2003 was on 8 February and was one of the most successful for years with numbers practically filling the Council Chamber. Members enjoy hearing about different aspects of the work of the Library, and that afternoon we had three short, but very comprehensive, lectures. Robert



cawsom dair darlith fer ond hynod gynhwysfawr. Amlinellodd Robert Davies beth o hanes y casgliad enfawr o fapiau sydd yn un o ogoniannau'r Llyfrgell a dangosodd ddarluniau hyfryd o lawer ohonynt. Wedyn traddododd Robert Lacey ddarlith ar y Casgliad Celtaidd o lyfrau printiedig gan fanylu'n arbennig ar yr egwyddorion sydd tu ôl i'r casgliad a sut y penderfynir beth yn union sydd yn mynd i'r casgliad. Yn olaf, cawsom y fraint o weld Albwm Mary Dillwyn, a oedd newydd gyrraedd y Llyfrgell ychydig ddyddiau ynghynt, ac esboniodd Iwan Michael inni gefndir teuluol a chymdeithasol yr albwm a'i bwysigrwydd eithriadol yn hanes ffotograffiaeth — ymddangosodd erthygl ganddo ar yr Albwm yn rhifyn y Gwanwyn o *Cyfaill y Llyfrgell*, sydd nawr ar wefan y Llyfrgell. Gan fod y Cyfeillion wedi cyfrannu tuag at y gost o brynu'r Albwm yr oedd y Pwyllgor yn falch iawn ei fod yn cael ei ddangos i'r Cyfeillion oedd yn bresennol i chi gael gweld beth a wneir gydag arian y Cyfeillion. Yr hyn a synnodd bawb a'i gwelodd oedd mor naturiol ac anffurfiol oedd y lluniau o deulu Mary Dillwyn, yn wahanol iawn i'r rhelyw o ffotograffau o'r cyfnod cynnar hwn, a hefyd, mor fychan oedd yr Albwm. Yr oedd y rhes hir a ddisgwyliai'n dawel ac eiddgar i gael golwg agosach ar yr Albwm yn dangos yn glir y diddordeb eithriadol yn y trysor bychan hwn.

Ffotograffiaeth oedd pwnc yr ail gyfarfod ar 10 Mai, hefyd, ond yn wahanol i albwm bychan Mary Dillwyn, pwysigrwydd casgliad Geoff Charles oedd ei ehangder a'i sgôp aruthrol. Mae llawer ohonom yn cofio gweld lluniau Geoff Charles yn *Y Cymro*, rhai ohonynt yn eiconau'r genedl erbyn hyn, a'r cwbl yn croniclo hanes cymdeithasol Cymru drwy ganol y ganrif ddiwethaf, ond heb wybod fawr ddim am y gwŷr a'u tynnodd. Llwyddodd Will Troughton, sydd wedi gweithio ar y casgliad ers iddo ddod i'r Llyfrgell, i roi darlith gynhwysfawr a dadlennol i ni, gan weu'r niferoedd o luniau a ddangosodd i mewn i hanes bywyd Geoff Charles yn ddeheuig iawn. Pleser arbennig oedd cael croesawu mab Geoff Charles a phedwar aelod arall o'r teulu i'r ddarlith, a chael eu sylwadau hwy a'u hatgofion am rai o'r ddarluniau enwog.

Mae'n ganol haf yn awr a hanner y flwyddyn wedi pasio, ond mae llawer o weithgareddau difyr o'n blaenau yn y Cyfeillion, os byw ac iach. Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd darlith Hywel Ffrancis, A.S., ar Paul Robeson ar brynhawn y Cyfarfod Blyneddol wedi bod, ond gobeithio y bydd llawer ohonoch sy'n Eisteddfodwyr yn dod i ddarlith yr Athro Sioned Davies, Caerdydd, ar *Lodes Lengar*, pwy bynnag oedd hi — y cwbl y gallaf ei ddweud yw mai rhywun o ardal yr Eisteddfod oedd hi. Am 3.00 o'r gloch, brynhawn Iau yr Eisteddfod ym Meifod y bydd y ddarlith, ond nid yn y Pagoda, sylwer, ond yn y Stiwdio. Cofiwch fod croeso i chi i ymweld â'r Cyfeillion ym mhabell y Llyfrgell yn yr Eisteddfod os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau, a byddwn yn falch o'ch gweld.

Ar 20 Medi bwriadwn fynd ar drip i Henffordd i weld y Mappa Mundi ac i ymweld â'r Llyfrgell Gadwynog enwog yn yr Eglwys Gadeiriol.

Pwnc yr Ysgol Undydd ar 29 Hydref yw Dylan Thomas, gan ei bod yn hanner can mlwyddiant ei farwolaeth ac mae gennym ddarlithwyr rhyngwladol eu henwogrwydd i'n diddori a'n haddysgu, sef yr Athrawon Walford Davies,

Davies outlined some of the history of the vast collection of maps, which is one of the glories of the Library, and showed delightful pictures of some of the maps. Then Robert Lacey told us about the Celtic Collection, discussing especially the principles of having such a specialized collection and outlining how it is decided what exactly goes into it. Finally, we were privileged to see Mary Dillwyn's Album, which had arrived at the Library only a few days earlier; Iwan Michael explained to us its enormous importance, not only as a sociological record of the Dillwyn family but also in the history of photography — an article by him on the Album in the Spring number of *Friend of the Library*, which is now on the Library website. As the Friends had contributed to the cost of buying this Album, the Committee was very pleased that it was shown to the members so that they could see how the Friends' money is spent. What surprised all who saw it was how natural and informal were the photographs of Mary Dillwyn's family, so different from the majority of photographs from this early period, and also how small the Album was. The long queue which waited patiently and eagerly to get a closer look at the Album showed clearly the intense interest in this little treasure.

The second meeting on 10 May again had photography as its theme, but unlike Mary Dillwyn's tiny album, the importance of Geoff Charles's collection is its huge scope and variety of photographs. Many of us remember seeing Geoff Charles's photographs in *Y Cymro*, some of them now national icons, and all chronicling the social history of Wales during the middle of the last century, though we knew little or nothing about the photographer. Will Troughton, who has worked on the collection since it came to the Library, gave a comprehensive and revealing lecture, deftly weaving the many images from the collection into the story of Geoff Charles's life. It was a special delight to welcome Geoff Charles's son and four other members of his family to the lecture, and to hear their comments and memories about some of the famous photographs.

It is now midsummer, but there are still several interesting meetings of the Friends to look forward to, all being well. By the time you read this, Hywel Francis M.P.'s lecture on Paul Robeson, on the afternoon of the AGM, will have passed, but we hope that many of the *Eisteddfodwyr* amongst you will come to Professor Sioned Davies's lecture in the Eisteddfod; the title is *Lodes Lengar* (Literary Lass), whoever she was — all I can say is that she was somebody from the Eisteddfod area. The lecture will be at 3.00 p.m. on Thursday in Meifod, but not in the Pagoda, but, N.B., in the Studio. Remember that you are always welcome to visit the Friends in the Library pavilion in the Eisteddfod if you want more information about the forthcoming events.

On 20 September we intend to visit Hereford to see the Mappa Mundi and the famous Chained Library in the Cathedral.

The subject of our annual Day School on 29 October is Dylan Thomas, as it is the 50th anniversary of his death. We have an internationally famous group of lecturers to delight and instruct us viz, Professors Walford Davies, Wynn Thomas, and Jane Aaron, and Dr Daniel Williams.

Wynn Thomas, a Jane Aaron, a Dr Daniel Williams. Cofrestrwch yn gynnar gan y bydd galw mawr am le gyda phwnc mor boblogaidd a darlithwyr mor serenog.

Nid yw manylion cyfarfod y Nadolig wedi eu setlo eto, ond yr oedd pawb a oedd yn bresennol llynedd ym mwyty Pendinas yn canmol y noson ac yn gofyn am gael ail ymweliad. Rhowch wybod i ni os oes gennych farn ar leoliad a natur cyfarfod y Nadolig.

Pob dymuniad da i chi a gobeithio y gwelwn chi yn y dyfodol agos.

Remember to register early as there will be a big demand for places given the popularity of the subject and the stellar lecturers.


Details of the Christmas event have not been finalised as yet, but everyone who was present in Pendinas last year was full of praise and demanding a return visit. Let us know if you have a view on the location and the nature of the Christmas meeting.

Every good wish to you all and may we see you soon at one of our events.

## PENIARTH 540

Mae Peniarth 540 yn llawysgrif Gymreig sy'n cynnwys dryll o *De Natura Rerum* Beda. Dyddia i hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif, mae'n debyg, ac mae'n dwyn glosau hen Gymraeg. Er ei bod wedi ei sgrifennu mewn mân lythrennau Carolingaid, mae'n perthyn ar sawl cyfrif i'r traddodiad llawysgrifol Ynysig. Mae addurn rhai o'r llythrennau cyntaf yn 'Wyddeleg'. Mae'r llythyren gyntaf 'N' ar lun anifail gydag addurn rhuban yn y llun ar y clawr blaen yn un ohonynt.

Gweler Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Gwasg Prifysgol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2000).



Peniarth 540 is a Welsh manuscript which contains a fragment of Bede's *De Natura Rerum*. It probably dates to the first half of the twelfth century and has Old Welsh glosses. Although it was written in Caroline minuscule, it belongs in several respects to the Insular manuscript tradition. The decoration of some of the initials is 'Irish'. The zoomorphic initial 'N' with ribbon decoration in the picture on the front cover is one of these.

See Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (University of Wales Press and National Library of Wales, 2000).

## COFEB CATRIN GLYNDŴR

Mae'r arddangosfa o fersiwn o'r gofeb i ferch Owain Glyndŵr ar safle Eglwys San Swithin yn Llundain yn parhau yn y Llyfrgell Genedlaethol tan 30 Awst.

## CATRIN GLYNDŴR MEMORIAL

The exhibition of a version of the memorial to the daughter of Owain Glyndŵr on the site of St Swithin's Church in London continues in the National Library until 30 August.



Chwith i'r dde / left to right Dr Brinley Jones (Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol / President of the National Library), Isabel Monnington-Taylor (Pwyllgor Cofeb Catrin Glyndŵr / Catrin Glyndŵr Memorial Committee), Richard Renshaw (cerflunydd / sculptor), Dr Rhidian Griffiths (Cyfarwyddwr Gwasanaethu Cyhoeddus yn y Llyfrgell Genedlaethol / Director of Public Services at the National Library)

llun / picture Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales

## LLAWYSGRIFAU AC ARCHIFAU CELTAIDD

## CELTIC MANUSCRIPTS AND ARCHIVES

Ceridwen Lloyd-Morgan

Mae'n naturiol fod y Llyfrgell Genedlaethol wedi rhoi pwyslais o'r cychwyn ar ddeunydd yn Gymraeg neu'n ymwneud â Chymru a'r Cymry, ond nid yw pawb yn ymwybodol fod gan y Llyfrgell gasgliadau helaeth hefyd o lawysgrifau ac archifau yn yr ieithoedd Celtaidd eraill neu'n ymwneud â'r gwledydd lle y'u siaredir. Wrth gasglu deunydd ysgrifenedig unigryw ni fydd y Llyfrgell, wrth reswm, yn cystadlu â'r llyfrgelloedd cenedlaethol perthnasol, ond lle nad oes sefydliad o'r math, fel yn achos Cernyw a Llydaw, er enghraifft, llwyddwyd dros y blynyddoedd i ddatblygu casgliadau o bwys.

Mae daliadau'r Llyfrgell o ddeunydd ysgrifenedig Llydaweg a Llydewig yn arbennig o helaeth, yn rhannol oherwydd y cysylltiadau agos rhwng Cymru a Llydaw. Dwy lawysgrif yw'r eitemau hynaf, sef dau Lyfr Oriau yn Lladin (LIGC 23388B a 23868A), wedi eu llunio yn y bymthegfed ganrif ar gyfer noddwyr o Lydaw, mae'n bur debyg. O ran testunau Llydaweg Canol, ceir casgliad o ddramâu crefyddol a phregethau a orosodd mewn copïau o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn unig, tra bo'r eitemau mwy modern yn cynnwys llythyrau oddi wrth yr iarll Hersart de la Villemarqué (1815-95).

Mae llawysgrifau Roparz Hemon yn un o'r casgliadau pwysicaf. Maent yn cynnwys dramâu miragl a phregethau Llydaweg, wedi eu copïo yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, y rhan fwyaf ohonynt yn nhafodiaith Landreger. Crynhöwyd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn y casgliad hwn yn Nantes yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan Léon Bureau, ac aeth y casgliad drwy sawl pâr o ddwylo cyn cael ei ymddiried gan yr Abbé Loeiz Ar Floc'h i ofal Roparz Hemon, gan ddod i'r Llyfrgell yn 1981. Mae drama firagl Lydaweg arall, wedi ei gopïo yn 1783, yn y gyfres gyffredinol o lawysgrifau llenyddol a hanesyddol (LIGC 1249D). O'r un cyfnod, gellir crybwyll geirfa Lydaweg-Lladin, wedi ei chopïo o destun printiedig yn 1521 (LIGC 12462D), a darn o weithred eiddo o 1774, sy'n ymwneud â thiroedd y teulu Kersauzon yn Finistère (LIGC Papurau Selwyn Jones, rhif 80).

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae gwaith carwyr llên gwerin wedi sicrhau inni nifer o lawysgrifau o ganeuon poblogaidd (LIGC 537A, er enghraifft), tra bo ymdrechion y Protestaniaid Cymraeg i argyhoeddi'r Catholigion Llydaweg wedi gadael testunau crefyddol megis y *Credo* a'r *Deg Gorchymyn* yn Llydaweg (LIGC 2750C). Mae'r deialog mewn mydr Llydaweg a ganwyd gan Hersart de Villemarqué yn aduniad Cymreigyddion y Fenni yn 1838 (LIGC 910C) yn dystiolaeth i gysylltiadau diwylliannol rhwng Cymru a Llydaw yn y cyfnod hwnnw. Ef a



J. R. F. Piette

llun / picture Llyfrgell  
Genedlaethol Cymru / National  
Library of Wales  
trwy garedigrwydd / courtesy of  
Mrs Mair Piette

From its foundation the National Library of Wales has naturally placed great emphasis on material in Welsh or relating to Wales and to Welsh people, but it is not perhaps generally known that the other Celtic languages and the countries where they are spoken are also well-represented in the Library's collections. In acquiring unique written material the Library does not, of course, compete with the relevant national libraries, but where no such national institution exists, as in the case of Cornwall or Brittany, for instance, significant collections have been built up over the years.

The Library's holdings of written material in Breton or relating to Brittany are particularly extensive, partly as a result of the close contacts between Wales and Brittany. The oldest manuscript items are two Latin Books of Hours (NLW 23388B and 23868A), apparently made for Breton patrons in the fifteenth century. Middle Breton is represented by a collection of religious plays and sermons now surviving only in copies of the eighteenth and nineteenth centuries, whilst modern items include letters from Count Hersart de la Villemarqué (1815-95).

The manuscripts of Roparz Hemon are one of the most important collections. They include Breton miracle plays and sermons, copied in the eighteenth and nineteenth centuries, most of them in the Tréguier dialect. The greater part of this collection was brought together in Nantes in the nineteenth century by Léon Bureau, and the collection passed through several pairs of hands before being entrusted by the Abbé Loeiz Ar Floc'h to Roparz Hemon, coming to the Library in 1981. There is another Breton miracle play, copied in 1783, in the general series of literary and historical manuscripts (NLW 1249D). From the same period, one can mention a Breton-Latin vocabulary, copied from a printed text in 1521 (NLW 12462D), and a fragment of a deed of possession of 1774, which deals with the lands of the Kersauzon family in Finistère (Selwyn Jones Papers, number 80).

In the nineteenth century the work of lovers of folklore have safeguarded for us a number of manuscripts of popular songs (NLW 537A, for example), while the efforts of the Welsh Protestants to convert the Breton Catholics have left religious texts such as the *Credo* and the *Ten Commandments* in Breton (NLW 2750C). The dialogue in a Breton metre sung by Hersart de Villemarqué at the reunion of the Cymreigyddion y Fenni in 1838 (NLW 910C) is evidence of cultural links between Wales and Brittany at that period. It was he who introduced folk songs and other traditions from Brittany to readers throughout Europe when he



gyflwynodd ganeuon gwerin a thraddodiadau eraill o Lydaw i ddarllenwyr drwy Ewrop yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gyhoeddodd yn 1839 ei *Barzaz-Breiz* enwog.

Cynrychiolir y cyfnod o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen yn bennaf gan bapurau sy'n adlewyrchu cyfeillgarwch a chydweithio rhwng ysgolheigion a chenedlaetholwyr yng Nghymru a Llydaw. Yn yr archifau modern hyn ceir cyfresi pwysig o ohebiaeth, sydd yn aml yn cynnig gwybodaeth am ymgyrchoedd i godi statws y Llydaweg ym myd addysg ac o fewn bywyd cyhoeddus: ymhlith y casgliadau gorau yn y cyswllt hwn y mae'r papurau a adawyd gan Gymry megis T. Gwynn Jones, D. Rhys Phillips, J. Dyfnallt Owen, a'i fab Geraint Dyfnallt Owen. Nid oedd y Cymry hyn i gyd yn medru Llydaweg; mae'r rhan fwyaf o'u harchifau, yn arbennig eu gohebiaeth, yn Ffrangeg, Saesneg, neu Gymraeg, ond maent yn rhoi tystiolaeth werthfawr ynglyn â sefyllfa'r Llydaweg a'r Llydawiaid yn y cyfnod.

Yn cyfateb i'r rhain y mae archifau personol nifer o Lydawiaid amlwg yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys François Jaffrennou ('Taldir', 1879-1956), J. R. F. Piette ('Arzel Even', 1920-71), a'r enwog Roparz Hemon (1900-78).

Ymhlith archifau Pol Diverres (1880-1946) ceir nid yn unig nodiadau ymchwil bersonol ond hefyd nifer o lawysgrifau hŷn, er enghraifft, casgliad o bregethau Llydaweg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chasgliad o drigain *marvaill* (chwedlau), wedi eu hysgrifennu, mae'n debyg, yn llaw Gabriel Milin (1822-95), yr ymddangosodd ei *Marvailloù grac'h koz* yn 1867.

Gadawodd yr ymchwilydd a llenor Jean-Raymond-François Piette, a oedd wedi dod i fyw yn Aberystwyth, ei nodiadau ymchwil ar yr iaith Lydaweg a gohebiaeth bwysig inni.

Bydd y sawl sydd â diddordeb yn y defnydd o'r Llydaweg yn yr eglwys, mewn addysg, ac ar y radio yn dod o hyd i ddefnyddiau manwl yn archifau'r Abbé Armañs Ar C'halvez (1921-72).

Roedd Roparz Hemon yn llenor, athro, ymchwilydd, a geiriadurwr – mewn gair, polymath. Mae ei archifau'n cynnwys llawysgrifau llenyddol ac ymchwil yn ogystal â gohebiaeth; gweler f'erthygl 'The Archives of Roparz Hemon', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, xxxii (rhifyn 2, Gaeaf 2001). Mae'r llythyrau a dderbyniodd a'r copïau o'i atebion a gadwai mor ofalus yn ffurfio ynddynt eu hunain hanes y mudiad diwylliannol Llydaweg o 1947, sef y flwyddyn yr aeth i fyw i Ddulyn, hyd at ei farwolaeth yn 1978.

Darperir rhestr gyffredinol o'r llawysgrifau ac archifau sy'n ymwneud â Llydaw yn yr ystafell ddarllen ac ar wefan y Llyfrgell.

Trafodir y llawysgrifau Cernyweg mewn erthygl gan Graham Thomas yn y rhifyn hwn o *Cyfaill y Llyfrgell*.

Cymharol gyfyng yw'r casgliadau Gwyddelig, ond yn eu plith ceir rhyw bymtheg ar hugain o lawysgrifau gwreiddiol sydd â'u cynnwys i gyd neu'n rhannol yn yr iaith Wyddeleg. Dwy lawysgrif o'r ail ganrif ar bymtheg yw'r enghreifftiau cynharaf, ac mae'r gweddill o'r ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dechrau'r ugeinfed ganrif. Llawysgrifau'n cynnwys barddoniaeth, caneuon, chwedlau,

published his famous *Barzaz-Breiz*.

The period from the beginning of the twentieth century onwards is represented mainly by papers reflecting friendship and co-operation between Breton and Welsh scholars and activists from the early twentieth century onwards. These modern archives include important series of correspondence, which often throw light on campaigns to improve the status of Breton in education and public life, the papers of Welshmen such as T. Gwynn Jones, D. Rhys Phillips, J. Dyfnallt Owen and his son Geraint Dyfnallt Owen, being especially rich in this area. These Welshmen did not all speak Breton; most of their archives, especially their correspondence, is in French, English, or Welsh, but they give valuable evidence for the situation of Breton and the Bretons in the period.

Their archives are complemented by those of several prominent Bretons of the twentieth century, including François Jaffrennou ('Taldir', 1879-1956), J. R. F. Piette ('Arzel Even', 1920-71), and the famous Roparz Hemon (1900-78).

Amongst the archive of Pol Diverres (1880-1946) are to be found not only personal research notes but also a number of older manuscripts, for example, a collection of Breton sermons from the nineteenth century, and a collection of sixty *marvaill* (tales), probably in the hand of Gabriel Milin (1822-95), whose *Marvailloù grac'h koz* appeared in 1867.

The researcher and author Jean-Raymond-François Piette, who had come to live in Aberystwyth, left his research notes on the Breton language and important correspondence to us.

Those interested in the use of Breton in the church, in education, and on radio, will find detailed documentation in the archives of Abbé Armañs Ar C'halvez (1921-72).

Roparz Hemon was an author, researcher, and lexicographer – in short, a polymath. His archives include literary manuscripts and research as well as correspondence; see my article 'The Archives of Roparz Hemon', *National Library of Wales Journal*, xxxii (number 2, Winter 2001). The letters which he received and the copies of his answers which he kept so carefully form in themselves a history of the Breton cultural movement from 1947, the year he went to live in Dublin, till his death in 1978.

A general list of all manuscripts and archives relating to Brittany is available in the reading room and on the Library's website.

Cornish manuscripts are discussed in an article by Graham Thomas in this number of *Friend of the Library*.

The Library's Irish holdings include some thirty-five original manuscripts wholly or partly in the Irish language. The earliest items are two seventeenth-century manuscripts, the rest date from the eighteenth, nineteenth, and early twentieth centuries. The contents include poetry, songs, prose tales and historiography (notably Keating's *Foras Feasa ar Éirinn*). Detailed descriptions are given in Pádraig Ó Riain, *Clár na Lámhscríbhinní Gaeilge sa Bhreatain Bhig* (Baile Átha Cliath, 1968). Other manuscript material of Irish interest includes Standish O'Grady's transcripts of Irish manuscripts in English and Irish libraries, and letters from prominent Irish scholars, writers, artists, politicians, and the like, scattered through various collections, as well as English-

a thestunau hanesyddol (yn enwedig y *Foras Feasa ar Éirinn* gan Keating) yw'r rhain. Cyhoeddwyd disgrifiadau manwl ohonynt gan Pádraig Ó Riain yn y gyfrol *Clár na Lámhscribhinní Gaeilge sa Bhreatain Bhig* (Baile Átha Cliath, 1968). Ymhlith yr eitemau eraill gellir enwi adysgrifau gan Standish O'Grady o lawysgrifau Gwyddeleg mewn llyfrgelloedd yn Lloegr ac Iwerddon, llythyrau oddi wrth Wyddelod amlwg megis ysgolheigion, llenorion, artistiaid, gwleidyddion, ac ati, a gadwyd mewn nifer o gasgliadau, yn ogystal â llawysgrifau llenyddol yn Saesneg: copi cyflwyno Katherine Philips, er enghraifft, o'i cherdd i gyfarch dug cyntaf Ormonde yn sgil datgelu cynllwyn Capten Blood i'w lofruddio, a cherddi gan Mary Tighe a Thomas Moore wedi eu copïo gan yr awduron eu hunain.

Prin yw'r eitemau yn y Fanaweg neu yng Ngaeleg yr Alban, ond gellir nodi casgliad o ddwy ar bymtheg o garolau Manaweg, a gopiwyd rhwng 1863 ac 1868, yn rhannol gan John Skillicorn, mwyngloddwr o Laxey, a dilyniant o benillion Gaeleg a gyfansoddwyd ym mis Ionawr 1856 gan William Findlater, gweinidog yn Durness, Sutherland.

Ar wahân i ddeunydd o'r gwledydd lle y siaredir yr ieithoedd Celtaidd, rhaid cyfeirio at lawysgrifau a phapurau ysgolheigion o Gymry a oedd yn arloeswyr ym maes astudiaethau Celtaidd. Ieithyddiaeth, yn arbennig astudiaethau cymharol ffilolegol, sydd yn amlwg yn bwysig yn y cyswllt hwn, ond cwmpasai diddordebau eang llawer o'r ysgolheigion hyn nifer o feysydd, gan gynnwys hanes, daearyddiaeth, archaeoleg, llên gwerin, a bywydeg hyd yn oed. Y mwyaf nodedig ohonynt oll, efallai, oedd Edward Lhuyd, y ceir gohebiaeth a phapurau ymchwil o'i eiddo ynghyd ag ambell i gyfrol lawysgrif a fu yn ei feddiant, yn ein casgliadau, ond mae yma hefyd lawysgrifau, gohebiaeth, a phapurau o eiddo Lewis Morris, William Owen-Pughe, a Sir John Rhys, i enwi dim ond tri.

language literary papers such as the presentation copy of Katherine Philips's poem to the first duke of Ormonde following the discovery of Captain Blood's plot to murder him, and autograph poems of Mary Tighe and Thomas Moore.

Items in Manx and in Scottish Gaelic are few and far between, but among those worth mentioning are a collection of seventeen Manx carols copied in 1863-8, partly by John Skillicorn, a miner from Laxey, and Gaelic verses composed by William Findlater, a minister at Durness, Sutherland, in January 1856.

Apart from material deriving from the countries where these Celtic languages are spoken, manuscripts and papers of Welsh scholars who were pioneers in the field of Celtic studies also merit attention. Linguistic material, such as comparative philological studies, is of particular importance here, but many of these scholars were in fact polymaths, whose interests extended to history, geography, archaeology, popular traditions, and even natural history. Perhaps the most notable was Edward Lhuyd, represented by correspondence as well as research papers and books formerly in his possession, but the Library also holds manuscripts, correspondence, and papers of Lewis Morris, William Owen-Pughe and Sir John Rhys, to name but a few.

Dr Ceridwen Lloyd-Morgan is Head of the Manuscripts Unit, National Library of Wales

*Dr Ceridwen Lloyd-Morgan yw Pennaeth Uned Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

## LLAWYSGRIFAU CERNYWEG

## CORNISH MANUSCRIPTS

Graham C. G. Thomas

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn meddu ar nifer o lawysgrifau yn yr iaith Gernyweg. Y pwysicaf ohonynt yw Peniarth 105 a LIGC 23849D. Mae'r gyntaf, a sgrifennwyd yn 1504 gan ryw Master Rad(ulph) Ton, yn cynnwys copi unigryw o *Beunans Meriasek*, drama mewn Cernyweg Canol wedi ei seilio ar fywyd y sant o Lydaw o'r chweched ganrif, Meriadoc. Roedd yn un o'r llawysgrifau o eiddo'r hynafiaethydd o'r ail ganrif ar bymtheg, Robert Vaughan (c. 1592-1667) o Hengwrt, sir Feirionnydd, a daeth i'r Llyfrgell Genedlaethol gyda gweddill llawysgrifau Hengwrt/Peniarth yn 1905. Mae'r olaf yn drawsgrifiad o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg o ddrama mewn Cernyweg Canol, *Beunans Ke*, wedi ei chyfansoddi, mae'n debyg, yn y bymthegfed ganrif ac wedi ei seilio ar fuchedd Sant Ke, a



Yr Athro / Professor J. E.  
Caerwyn Williams

llun / picture Llyfrgell Genedlaethol  
Cymru, Archifau'r Methodistiaid  
Calfinaidd / National Library of  
Wales, Calvinistic Methodist  
Archives  
drwy garedigrwydd / courtesy of  
Mrs Violet Davies

The National Library of Wales possesses a number of manuscripts in the Cornish language, of which the most important are Peniarth 105 and NLW 23849D. The former, written in 1504 by a certain Master Rad(ulph) Ton, contains a unique copy of *Beunans Meriasek*, a play in Middle Cornish based upon the life of the sixth-century Breton saint, Meriadoc. It was one of the manuscripts owned by the seventeenth-century antiquary, Robert Vaughan (c. 1592-1667) of Hengwrt, Merionethshire, and came to the National Library with the rest of the Hengwrt/Peniarth manuscripts in 1905. The latter is a mid-sixteenth century transcript of a play in Middle Cornish, *Beunans Ke*, composed probably in the fifteenth century and based upon the life of



anrhydeddwyd yn Llydaw, Cernyw, ac mewn manau eraill; mae hefyd yn cynnwys darn helaeth sy'n trafod gwrthdrawiad y Brenin Arthur â Lucius Hiberus, ymerawdwr Rhufain. Darganfuwyd y llawysgrif ymhlith papurau'r diweddar Athro J. E. Caerwyn Williams a roddwyd i'r Llyfrgell gan ei weddw, Gwen, yn 2000. Mae'r llawysgrif hon yn bwysig nid yn unig fel testun llenyddol ond hefyd fel ffynhonnell geiriau Cernyweg na chawsant eu cofnodi o'r blaen. Bwriedir digideiddio'r ddwy llawysgrif ddrama gynnar hyn yn y dyfodol agos.

Mae llawysgrifau Cernyweg Canol eraill mewn llawysgrif yn cynnwys tri thrawsysgrifiad o'r *Ordinalia* o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg neu ddechrau'r ddeunawfed ganrif (Llanstephan 97, LIGC 21001B, a Peniarth 428), y cyntaf gyda chyfieithiad Saesneg a rhagair Lladin gan John Keigwyn (1641-1716) o Moushole ac wedi ei sgrifennu, mae'n debyg, ar gyfer Edward Lhuyd (1660?-1709), yr ail hefyd gyda chyfieithiad Saesneg ond yn amherffaith oherwydd colli rhai dail, y trydydd heb gyfieithiad Saesneg, gynt yn eiddo i Lhuyd; a thrawsysgrifiadau gan Robert Williams (1810-81) o *Beunans Meriasek* a rhannau o *De Origine Mundi* (LIGC Cwrtmawr 1145).

Mae'r Llyfrgell hefyd yn berchen ar nifer o eirfaon Cernyweg. Mae'r rhain yn cynnwys trawsysgrifiad (Llanstephan 85) gan Moses Williams (1586-1742) o'r 'Old Cornish Vocabulary' yn Llsg. Llyfrgell Brydeinig, Cotton Vespasian A. xiv; *Geirlyer Kyrnùveig* Edward Lhuyd (LIGC Llanstephan 84), sy'n cynnwys llawer o eiriau na chawsant eu cynnwys yn ei *Archaeologia Britannica* (1707); trawsysgrifiad anghyflawn o *An Lhadymyr ay Kernou – The Interpreter of Cornwall* gan Williams Hals (1655-?1737) (LIGC 1662E); geirfa Gernyweg-Saesneg wedi ei sgrifennu yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg, mae'n debyg (Bodewryd 5); a phroffleni'r *Lexicon Cornu-Britannicum* (1865) gan Robert Williams (Cwrtmawr 1138).

Mae gweithiau mewn Cernyweg gan awduron o'r ugeinfed ganrif yn cynnwys cerdd gan Henry Jenner (Llsg. LIGC 3257B), storiâu byrion gan R. St. V. Allin-Collins (LIGC 6075C), a drafftiau o gerddi gan Tim Saunders (LIGC Ex 1512).


St Ke(a), who was venerated in Brittany, Cornwall, and elsewhere; it also contains a long section involving King

Arthur's conflict with Lucius Hiberus, emperor of Rome. The manuscript was discovered among the papers of the late Professor J. E. Caerwyn Williams donated to the Library by his widow, Gwen, in 2000. This manuscript is important not only as a literary text but also as a source of Cornish words not before recorded. It is intended to digitize these two early drama manuscripts in the near future.

Other Middle Cornish texts in manuscript include three late seventeenth- or early eighteenth-century transcripts of the *Ordinalia* (Llanstephan 97, NLW 21001B, and NLW Peniarth 428), the first with an English translation and Latin preface by John Keigwyn (1641-1716) of Mousehole and probably written for Edward Lhuyd (1660?-1709), the second also with an English translation but imperfect owing to the loss of some leaves, the third without an English translation and once owned by Lhuyd; and transcripts by Robert Williams (1810-81) of *Beunans Meriasek* and parts of *De Origine Mundi* (Cwrtmawr 1145).

The National Library also possesses a number of Cornish vocabularies. These include a transcript (Llanstephan 85) by Moses Williams (1686-1742) of the 'Old Cornish Vocabulary' in British Library MS, Cotton Vespasian A. xiv; Edward Lhuyd's *Geirlyer Kyrnùveig* (Llanstephan 84), which contains many words not included in his *Archaeologia Britannica* (1707); an incomplete transcript of *An Lhadymyr ay Kernou – The Interpreter of Cornwall* by William Hals (1655-?1737) (NLW 1662E); a short Cornish-English Vocabulary compiled probably in the first half of the seventeenth century (NLW Bodewryd 5); and the proof-sheets of the *Lexicon Cornu-Britannicum* (1865) by Robert Williams (Cwrtmawr 1138).

Works by twentieth-century writers in Cornish include a poem by Henry Jenner (NLW 3527B), short stories by R. St. V. Allin-Collins (NLW 6075C), and drafts of poems by Tim Saunders (NLW ex 1512).



*Beunans Ke* yn / in LIGC / NLW 23849D

llun / picture Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales



## ARCHIF GENEDLAETHOL SGRIN A SAIN

## NATIONAL ARCHIVE OF SCREEN AND SOUND

Iestyn Hughes

Os chwiliwch ar y We Fyd-Eang am gerddoriaeth Geltaidd, fe gewch chi bron i filiwn o gyfeiriadau. Mae'n amlwg felly bod diddordeb byd-eang yn y *genre*; ond wrth edrych ar y safleoedd perthnasol, fe welwch mai ychydig iawn ohonynt sy'n cynnwys cerddoriaeth Gymreig. Mae lluo o safleoedd yn trafod cerddoriaeth o'r Alban, o Lydaw, ac yn sicr o Iwerddon, ond prin iawn yw'r sôn am gerddoriaeth o Gymru. Fe welwch yr un peth i raddau wrth deithio'r Cyfandir a galw heibio rhai o'r siopau sy'n gwerthu recordiau a nwyddau Celtaidd – digonedd o ddeunydd o Iwerddon a'r Alban, dogn go helaeth o Lydaw, a rhyw ychydig yn unig o Gymru. Efallai bod Cymru'n wlad Geltaidd, ond ychydig o'n cerddoriaeth sy'n ffitio i'r *genre* Celtaidd, fe ymddengys.

O ran niferoedd yr eitemau, y gwrthwyneb sy'n wir am Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, sydd yn ddigon naturiol wedi canolbwyntio ar y gwaith o adeiladu casgliadau o gerddoriaeth Gymreig. Er hynny, mae yna rai esiamplau o gerddoriaeth Geltaidd boblogaidd yn yr Archif, megis Alan Stivell, y Dubliners, a Runrig, er mwyn rhoi blas i ymchwilyr o'r cyd-destun Celtaidd.

Yn yr un modd, esiamplau yn unig sydd gan yr Archif o ddeunydd llafar a fideo o'r gwledydd Celtaidd eraill. Mae'n rhan o ystod casglu'r Llyfrgell Genedlaethol i gasglu deunydd sy'n ymwneud â'r ieithoedd Celtaidd, ac yn yr ysbryd hwn fe ffurfiwyd yn ddiweddar berthynas rhwng yr Archif yn Aberystwyth a'r Archif Sain Lydewig, *Association Blaz Produktion* (Christian Le Bras). Derbyniwyd 6 tâp VHS a thrawsgrifiadau ohonynt, ac maent yn cynnwys gwybodaeth werthfawr a fydd yn cynorthwyo myfyrwyr ac ymchwilyr i ddod i adnabod Llydaw a'r Llydaweg.

Ychydig iawn o ffilmiau sy'n 'croesi'r bont' rhwng y gwledydd Celtaidd, ond mae rhai ar gael yng nghasgliadau'r Archif. Fe dderbyniodd un ffilm yn arbennig, sef y ffilm ar fordeithiau'r Urdd, sylw rai blynyddoedd yn ôl, pan adferwyd hi gydag arian Ewropeaidd. Ffilm arall o ddiddordeb i'r Celtegydd yw taith gan Gymro o gwmpas y Gaeltacht, sef *Tír na n-Óg*, a dynnwyd gan John Roberts Williams a Geoff Charles, ac a adferwyd rai blynyddoedd yn ôl.

I'r Celtegydd sydd â diddordeb arbennig yng Nghymru, mae gwerth blynyddoedd o waith pori ar gael yng nghasgliadau'r Archif, o hanes llafar i ddeunydd teledu a radio, heb sôn am gasgliad anrhydeddus o recordiau Cymreig – o'r recordiadau cynharaf un i'r cynnyrch diweddaraf a welwch ar silffoedd siopau Cymreig. Mae yma gynnyrch 'traddodiadol' nad yw'n hawdd ei ddarganfod a cherddoriaeth fodern y byddai'r rhan fwyaf o ddarllenwyr y golofn hon yn dweud ei bod yn 'brifo 'nghlust i', megis Tortoise Corpse Desecration a'r Llygod Ffyrnig.

If you look on the World Wide Web for Celtic music, you will find nearly a million references. It's obvious therefore that there is world-wide interest in the genre; but looking at the relevant sites you will find that very few of them contain Welsh music. There are many sites which deal with music from Scotland, from Brittany, and certainly from Ireland, but there is very little mention of music from Wales. You will see the same thing to some extent when travelling on the Continent and calling in some of the shops which sell Celtic records and goods – plenty of material from Ireland and Scotland, quite a bit from Brittany, and only a little from Wales. Perhaps Wales is a Celtic country, but very little of our music fits into the Celtic genre, it seems.

As regards numbers of items, the opposite is true of the National Screen and Sound Archive of Wales, which naturally enough has concentrated on the work of building up collections of Welsh music. Despite that, there are some examples of popular Celtic music, such as Alan Stivell, the Dubliners, and Runrig, to give researchers a taste of the Celtic context.

Similarly, the Archive only has examples of oral and video material from the other Celtic languages. It is part of the Library's brief to collect material relating to the Celtic languages, and in this spirit a relationship has recently been formed between the Archive in Aberystwyth and the Breton Sound Archive, *Association Blaz Produktion* (Christian Le Bras). 6 VHS tapes and transcriptions of them have been received, and they include valuable information which will help students and researchers to get to know Brittany and Breton.

Few films 'cross the bridge' between the Celtic countries, but some are available in the Archive's collections. One film particularly, the film on the sea voyages of the Urdd (Welsh League of Youth), received attention some years ago, when it was restored with European money. Another film of interest to the Celticist is the journey by a Welshman around the Gaeltacht, *Tír na n-Óg*, which was made by John Roberts Williams and Geoff Charles, which was restored a few years ago.

For the Celticist who has a particular interest in Wales, it would be the work of years to browse through the collections of the Archive, from oral history to television and radio material, not to mention the notable collection of Welsh recordings – from the earliest recording to the latest products which you will see on the shelves of Welsh shops. There is here 'traditional' material not easily available elsewhere and modern music which most of the readers of this column would say 'hurts my ears', such as Tortoise Corpse Desecration and the Llygod Ffyrnig.

**CYMDEITHAS CYFEILLION  
LLYFRGELL GENEDLAETHOL  
CYMRU**

**ASSOCIATION OF FRIENDS OF  
THE NATIONAL LIBRARY OF  
WALES**

*Amcanion:*

- Meithrin diddordeb ehangach yn y Llyfrgell a'i gwaith.
- Codi arian i'r Llyfrgell.
- Symbylu rhoddion a chymynroddion i'r Llyfrgell.
- Annog ei haelodau i fod yn llysgenhadon dros y Llyfrgell.

*Aims:*

- To foster a wider interest in the Library and its work.
- To raise funds for the Library.
- To stimulate gifts and bequests to the Library.
- To encourage its members to act as ambassadors for the Library.

*Graddfeydd Aelodaeth:*

Aelodaeth Unigol	£15.00
Aelodaeth ar y Cyd	£25.00
Aelodaeth Oes (h.y. 15 mlynedd)	£200.00
Aelodaeth Oes ar y Cyd (h.y. 15 mlynedd)	£320.00
Dan 25 Oed	£5.00

*Membership Rates:*

Individual Membership	£15.00
Joint Membership	£25.00
Life Membership (i.e. 15 years)	£200.00
Joint Life Membership (i.e. 15 years)	£320.00
Under 25 Years of Age	£5.00

**TAFODAU CELTAIDD**

Chwec'h o ieithoedd Celtaidd a siaredir heddiw, a gellir eu dosrannu'n ddwy gangen o'r un teulu. Ar y naill law ceir y gangen 'Wyddelig' sy'n cynnwys Gaeleg yr Alban a'r Fanaweg yn ogystal â'r Wyddeleg, ac ar y llall y gangen 'Frythonig' sy'n cynnwys y Gymraeg, y Gernyweg, a'r Llydaweg. Tan y cyfnod modern cynnar nid oedd hi'n hysbys, hyd yn oed i ysgolheigion, fod yr ieithoedd hyn i gyd yn perthyn i'r un teulu. Ieithoedd lleiafrifol yw pob un ohonynt bellach, a nifer y siaradwyr Cernyweg a Manaweg yn fach iawn, er iddi godi yn ddiweddar.

Yn ystod yr Oesoedd Canol datblygodd traddodiad ysgrifenedig yn y Wyddeleg a'r Gymraeg, gan adael cynhyngaeth sylweddol o lawysgrifau cynnar yn yr ieithoedd brodorol. Rhannai Iwerddon ac ardaloedd Gaeleg yn yr Alban yr un iaith a diwylliant yn y cyfnod hwn, ond mewn llenyddiaeth gynnar Gymraeg ceir adlais yn aml o'r cyfnod cyn y seithfed ganrif pryd y siaredid iaith Frythoneg yn y teyrnasoedd yng ngogledd Lloegr a deheudir yr Alban. Prin yw'r ffynonellau ysgrifenedig yn yr ieithoedd Celtaidd eraill cyn y cyfnod modern cynnar, ond yn aml adlewyrchir traddodiadau brodorol mewn testunau Lladin. Parhaodd y traddodiadau llafar o bwys ym mhob un o'r ieithoedd Celtaidd hyd y cyfnod modern, er bod cryfder y gwahanol fathau o draddodiad yn amrywio o wlad i wlad. Yn wahanol i Iwerddon, er enghraifft, collodd Cymru lawer o'i

**CELTIC VOICES**

Six Celtic languages are spoken today, and they can be divided into two branches of the same family. The 'Goidelic' branch comprises Scottish Gaelic and Manx as well as Irish, whilst the 'Brythonic' branch includes Welsh, Cornish, and Breton. It was not until the Early Modern period that even scholars became aware that all of these languages belonged to the same family. They are all now minority languages, Cornish and Manx having the fewest speakers, although numbers have risen recently.

Both Irish and Welsh developed a written tradition in the Middle Ages, leaving behind a significant legacy of early manuscripts in the vernacular. Ireland and Gaelic-speaking Scotland had a shared language and culture at this period, but echoes can be heard in early Welsh literature of the period before the seventh century when a Brythonic language was spoken in the kingdoms of northern England and the Scottish borders. Written sources in the other Celtic languages before the early modern period are scarce, but native traditions may be reflected in Latin texts. Oral traditions have persisted in each of the Celtic languages into modern times, though the strength of different types of tradition has varied from one country to another. In contrast to Ireland, for example, Wales lost much of its musical heritage in the course of the religious revivals which exerted a heavy influence on the Welsh from the

hetifeddiaeth gerddorol yn sgil y diwygiadau crefyddol a ddyfanwadodd yn drwm ar y Cymry o'r ddeunawfed ganrif ymlaen.



Nid yw'r arddangosfa yn cynnig trawsdoriad o ddiwylliant pob un o'r gwledydd hynny lle y siaredir un o'r ieithoedd Celtaidd. Yn ei chasgliadau Cymraeg a Chymreig y mae cryfder y Llyfrgell Genedlaethol, yn naturiol. O ran yr ieithoedd eraill, y casgliadau Llydaweg yw'r helaethaf, oherwydd rhesymau hanesyddol arbennig a chysylltiadau agos rhwng y ddwy wlad. Y bwriad yw cynnig cipdrem ar amrywiaeth casgliadau'r Llyfrgell o ran cyfnod a chyfrwng ac i roi llwyfan i amrywiaeth o dafodau Celtaidd.

Mae'r arddangosfa yn parhau tan 5 Ionawr 2004.

eighteenth century onwards.


The exhibition does not attempt to present a cross-section of the culture of each of those countries where Celtic languages are spoken. Inevitably, it is Wales that is most heavily represented in the collections of the National Library, though it also has extensive holdings of material from Brittany, for particular historical reasons and because of close contacts between the two countries. The aim is to give the visitor a sense of the great variety of the Library's collections, in terms of both date and medium, and to suggest the diversity of Celtic voices.

The exhibition continues until 5th January 2004.




Anterliwt wedi ei seilio ar y gerdd Saesneg Canol, Troilus and Criseyde, gan Geoffrey Chaucer. Copiwyd y llawysgrif hon gan yr hynafiaethydd a chopiwyd pwysig John Jones (c. 1585-1657/8), Gellilyfdy, Sir y Fflint; dechreuodd ar y gwaith cyn 14 Chwefror 1613, ond ni ddychwelodd i gwblhau'r dasg tan 1622. Llsg. Peniarth 106, tt. 36-7

A Welsh interlude or verse play based on the Middle English poem of Troilus and Criseyde by Geoffrey Chaucer. The manuscript was copied by the important scribe and antiquary John Jones (c. 1585- 1657/8) of Gellilyfdy, Flintshire, who started work on it before 14 February 1613 but did not return to complete the task until 1622. Peniarth MS 106, pp. 36-7




Alaw o Lydaw, 'Ann Hini Goz', wedi ei hychwanegu mewn llyfr emyn-donau Cymreig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; perchennog cyntaf y gyfrol oedd Andrew Davies, Carno, Sir Drefaldwyn, ym 1826. Llsg. LIGC 537A

A Breton air, 'Ann Hini Goz', added to a nineteenth-century volume of Welsh hymn-tunes. The manuscript was first compiled by Andrew Davies of Carno, Montgomeryshire, in 1826. NLW MS 537A








Llyfr nodiadau Syr John Rhŷs ar gerrig Ogam yn Iwerddon, yn cynnwys disgrifiad o'i ymweliad â Knockbog, p. Dunbulloge ger Cork, ar 12 Ebrill, 1902. Papurau Syr John Rhŷs



Sir John Rhŷs's note book on Ogam stones in Ireland, with details of his visit to Knockbog, p. Dunbulloge near Cork, on 12 April, 1902. Sir John Rhŷs Papers

Llawysgrif o ddechrau'r ddeunawfed ganrif yn cynnwys copi anghyflawn o chwedl ryddiaith Wyddeleg yn adrodd anturiaethau dyn o'r enw Cod ar y Cyfandir. Llsg. LIGC 411A, tt. 14-15

A manuscript of the early eighteenth century containing an incomplete Irish prose tale relating the adventures on the Continent of a man called Cod. NLW MS 411A, pp. 14-15



Mae'r llun yn cynnwys Théodore a Léna Botrel, Eifionnydd, Gwynn Evans, Gwyneth Vaughan, Hwfa Môn, Watcyn Wyn, 'Gwenedd', a Chadvan ger y corn hirlas.

The photograph includes Théodore and Léna Botrel, Eifionnydd, Gwynn Evans, Gwyneth Vaughan, Hwfa Môn, Watcyn Wyn, 'Gwenedd', and Cadvan by the hirlas horn.

Allan o albwm ffotograffau François Jaffrennou 'Taldir' (1879-1956), o Gyngras Geltaidd Caernarfon 1904, sy'n cynnwys capsiynau ganddo mewn Ffrangeg. Ffotograffau gan John Wickens (1864-1936), Bangor.

From an album of photographs of delegates at the Pan-Celtic Congress, Caernarfon, 1904, formerly in the possession of François Jaffrennou 'Taldir' (1879-1956), and annotated by him in French. Photographic Studies by John Wickens (1864-1936), Bangor.



**Gadewch  
i Paul  
Robeson  
Ganu !**

**Let  
Paul  
Robeson  
Sing !**

arddangosfa  
i ddathlu bywyd  
Paul Robeson  
a'i berthynas  
â Chymru

a major exhibition  
celebrating the life  
of Paul Robeson  
and his relationship  
with Wales

**LLYFRGELL  
GENEDLAETHOL  
CYMRU**

**THE NATIONAL  
LIBRARY  
OF WALES**

**Aberystwyth**

**19 MAI - 25 HYDREF 2003**

**19 MAY - 25 OCTOBER 2003**

**Llun - Sadwrn 9.30 - 5.00**

**Monday - Saturday 9.30 - 5.00**

**01970 632801 / holi@llgc.org.uk / www.llgc.org.uk**

cefnogwyd gan / supported by



Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU  
ffôn / phone +44 (0) 1970 632800 ffacs / fax +44 (0) 1970 615709  
holi@llgc.org.uk www.llgc.org.uk

Argraffwyd gan / Printed by  
Cambrian Printers, Aberystwyth